# Ysgol Llanhari

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
01443 237824 | post@llanhari.cymru
www.llanhari.cymru


21ain o Hydref 2025

Annwyl Rieni a Gofalwyr

Ysgrifennaf atoch ar ddiwedd hanner tymor hynod o brysur! Wrth i fi ysgrifennu'r llythyr yma, mae rhai o ddisgyblion hŷn yr ysgol ar eu ffordd i Sicily gyda'r Adran Ddaearyddiaeth ac fel llawer iawn o weithgareddau'r hanner tymor hwn, mae gweithgaredd o'r fath yn cyfoethogi profiad y disgyblion yn yr ysgol. Diolch yn fawr i chi fel rhieni am eich cefnogaeth i'r daith hon ac i bob gweithgaredd arall yn ystod yr hanner tymor yma. Mae mwy i ddod cyn y Nadolig!

Hoffwn ddiolch hefyd i'r rhai ohonoch a fynychodd y cyfarfod gyda'r arolygwyr o Estyn ar ddechrau mis Hydref ac i bawb a wnaeth gwblhau'r holiadur i rieni. Bydd yr adroddiad ar yr ysgol yn cael ei gyhoeddi ar yr 8fed o Ragfyr 2025 ac edrychwn ymlaen yn fawr at ei rannu gyda chi. Rwy'n hynod o falch o ddisgyblion a staff yr ysgol a hoffwn ddiolch i'r llywodraethwyr hefyd am eu cyfraniad.

Fel y gwyddoch o ohebiaeth flaenorol, mae cwmni teledu yn ymweld â ni'n gyson i ffilmio ar gyfer rhaglen am athrawon newydd gymhwyso, *Athrawon*, a ddarlledir ymhen blwyddyn. Holwyd am ganiatad y tymor diwethaf ond os oes unrhyw newid, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Fe fydd golygfeydd cyffredinol e.e. ar yr iard, ar y coridorau yn cael eu ffilmio ac mae'n bwysig ein bod yn ymwybodol os nad ydych am i'ch plentyn ymddangos yn y gyfres.

Mae nifer o weithgareddau chwaraeon a gemau yn erbyn ysgolion cyfagos wedi cychwyn yn ystod yr hanner tymor, gydag ambell ganlyniad nodedig i'w ddathlu! Er mwyn tynhau ar brosesau iechyd a dioglewch, gofynnir yn garedig i chi roi caniatad i'ch plentyn i gymryd rhan yn y gweithgareddau amrywiol am y flwyddyn. Ni fyddwn yn gofyn am ganiatad bob gêm oni bai bod angen gwneud hynny.

Bu cryn gyffro yr wythnos ddiwethaf pan gyhoeddwyd mai sioe gerdd nesaf yr ysgol gyfan fydd y *Teulu Addams*. Bydd hwn yn cael ei berfformio ym mis Mawrth. Yn ystod Tymor yr Haf, edrychwn ymlaen at weld perfformiad y disgyblion cynradd o'r *Llew Frenin*.

Atodir calendr sy'n nodi prif ddigwyddiadau ysgol gyfan yr hanner tymor nesaf gyda'r llythyr hwn. Y digwyddiad cyntaf yn syth ar ôl y gwyliau hanner tymor yw noson rieni blwyddyn 11. Cynhelir hwn yn yr ysgol.

Gan ddymuno gwyliau hanner tymor braf i chi gyd.

Meinir Thomas

Meinir Thomas

Pennaeth

Ysgol Llanhari

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
01443 237824 | post@llanhari.cymru
www.llanhari.cymru

21st of October 2025

Dear Parents and Carers

I am writing to you at the end of an extremely busy half term! As I write this letter, some of the school's older pupils are on their way to Sicily with the Geography Department and like many activities this half term, such an activity enriches the pupils' experience at school. Thank you very much as parents for your support for this trip and for all other activities during this half term. There are more to come before Christmas!

I would also like to thank those of you who attended the meeting with the inspectors from Estyn at the beginning of October and to everyone who completed the questionnaire for parents. The report on the school will be published on the 8th of December 2025 and we are looking forward to sharing it with you. I am extremely proud of the school's pupils and staff and also wish to thank the governors for their contribution.

As you are aware from previous correspondence, a television company visits us regularly to film for a programme about newly qualified teachers *Athrawon*, which will be broadcast in a year's time. We asked for permission last term but if there is any change, please contact us. There will be general shots e.g. on the yard, in the corridors, being filmed and it is important that we are aware if you do not want your child to appear in the series.

A number of sporting activities and games against neighbouring schools have taken place during the half term, with some notable results to celebrate! In order to improve our health and safety processes, we kindly ask you to give your child permission to participate in the various activities, and this will be valid for the year. We will not ask permission for every match unless it is necessary to do so.

There was a lot of excitement last week when it was announced that the next musical for the whole school will be *The Addams Family.* This will be performed in March. During the Summer Term, we look forward to seeing the primary pupils perform *The Lion King.*

A calendar setting out the main school-wide events for the next half term is attached to this letter. The first event immediately after the half-term holidays is the year 11 parents' evening. This will be held at the school.

Wishing you all a relaxing half term break.

Meinir Thomas

Meinir Thomas

Headteacher